Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Jigsaw Pre School Playgroup Ltd**

**Ysgol Bryn Deva**
**Rhodfa Linden**
**Cei Connah**
**CH5 4SN**



## Dyddiad Cyhoeddi

**29 Mehefin 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Jigsaw pre school playgroup Ltd wedi'i leoli yng Nghei Connah. Mae'n gweithredu mewn dwy ystafell, y mae un ohonynt wedi'i lleoli yn Ysgol Bryn Deva a'r llall, sy'n cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg, wedi'i lleoli mewn adeilad ger yr ysgol. Mae'r cwmni cyfyngedig wedi enwebu Sarah Jane Oliver (Jane) fel unigolyn cyfrifol a'r person â gofal yw Nicola Hunt. Mae'r gwasanaeth ar agor o 7:45am i 5:30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener ac yn cynnig gofal cofleidiol, sy'n cynnwys cylch chwarae a chylch chwarae ychwanegol, gofal ar ôl ysgol a chlwb gwyliau. Mae lleoedd ar gael i blant hyd at 11 oed gyda lleoedd a ariennir ar gyfer plant rhwng dwy a thair oed sydd â hawl fel rhan o ddarpariaeth dechrau'n deg a phlant tair oed fel rhan o'r Hawl Bore Oes. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu gofal i 50 o blant.

Saesneg yw'r brif iaith. Mae hwn yn wasanaeth nad yw'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws a oedd ond yn canolbwyntio ar rai elfennau o lesiant, gofal a datblygiad ac amgylchedd.

### 2. Gwelliannau

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws, a'r arolygiad cyntaf ers ailgofrestru fel cwmni cyfyngedig felly ni chafodd unrhyw welliannau eu nodi ar yr achlysur hwn.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion yn ymwneud â chofnodi a rhoi gwybod i ni am ddigwyddiadau, sut mae rhai bwydydd yn cael eu gweini yn ystod amser byrbryd, rhai mannau ac adnoddau yn yr ystafell a ddefnyddir gan y plant hŷn, y staff yn cael eu cofnodi ar gofrestrau ac ad-drefnu strwythur y diwrnod ar gyfer plant Hawl Bore Oes.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, ni wnaethom arolygu'r thema hon yn ei chyfanrwydd a gwnaethom ganolbwyntio ar; i ba raddau mae gan blant lais, i ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, a pha mor dda y mae plant yn datblygu ac yn dod yn annibynnol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn mynegi eu hanghenion ac yn gwneud dewisiadau.

Roedd plant yn rhydd i symud o gwmpas a dewis ble a gyda beth yr hoffent chwarae yn y ddwy ystafell. Roedd ganddynt ddewisiadau yn ystod amser byrbryd gan fod amrywiaeth o fwydydd ar gael iddynt. Roedd plant yn gallu mynegi eu hunain a'u hanghenion ac fe’u clywsom yn gofyn am bethau yr oeddent eisiau. Er enghraifft, gofynnodd plentyn am fwy o fyrbryd, a roddwyd hyn iddo.

Mae gan y plant lais o ran y gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae plant wedi ymgartrefu yng nghwmni pobl y maent wedi ffurfio cyfeillgarwch â nhw.

Roedd plant wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth ac roeddent yn cyfathrebu'n dda ac yn chwarae ochr yn ochr â phlant eraill ac aelodau staff. Roeddent yn hyderus ac yn adnabod y gweithdrefnau a oedd yn eu helpu i deimlo'n ddiogel. Er enghraifft, ar adeg byrbryd roeddent yn gwybod bod rhaid iddynt olchi eu dwylo ac yna dod o hyd i sedd wrth y bwrdd. Roedd plant wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol ac roeddent yn chwilio am ffrindiau i chwarae gyda nhw ac i eistedd wrth eu hochr.

Mae plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel gan eu bod yn adnabod y drefn arferol.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws felly ni chafodd y maes allweddol hwn ei arolygu ar yr achlysur hwn.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws felly ni chafodd y maes allweddol hwn ei arolygu ar yr achlysur hwn.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae plant yn gallu cael mynediad at y rhan fwyaf o adnoddau a chyfleusterau'n annibynnol.

Roedd y plant yn gallu bod yn annibynnol a datblygu sgiliau trwy'r adnoddau a'r cyfleusterau a oedd ar gael iddynt. Roedd y plant yn gallu cael mynediad at y rhan fwyaf o adnoddau'n rhydd, ac roedd cyfleusterau fel y toiledau wedi'u lleoli fel y gallai plant hefyd

gael mynediad atynt. Roedd plant yn cael eu hannog i ddewis o'r amrywiaeth o fwyd a oedd yn cael ei gynnig ar gyfer byrbryd ac roeddent hefyd yn cael eu hannog i nôl platiau a chwpanau yn barod a helpu i'w rhoi i’r neilltu pan oeddent wedi gorffen.

Mae plant yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu eu hannibyniaeth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, ni wnaethom arolygu'r thema hon yn ei chyfanrwydd a gwnaethom ganolbwyntio ar; pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae staff yn gweithredu'r rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau'n dda i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel.

Roedd y staff yn ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel a hyrwyddo ffordd iach o fyw. Roeddent yn darparu opsiynau byrbryd maethlon a dim ond yn cynnig llaeth neu ddŵr i yfed. Roedd byrddau'n cael eu glanhau a dwylo'n cael eu golchi cyn bwyd. Gwnaethom nodi fod staff yn dilyn y rhan fwyaf o'r gweithdrefnau perthnasol wrth weini bwyd, ond weithiau fe'u gwelwyd yn trin bwyd gyda'u dwylo pan nad oeddent yn gwisgo menig. Gallai hyn gynyddu'r perygl o groes-heintio. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd y plant hŷn a oedd yn mynychu yn ystod amser cinio yn cael llawer o egwyl rhwng eu byrbryd boreol a'u cinio.

Sicrhaodd y staff fod cofrestrau'n cael eu cadw o'r plant a oedd yn mynychu a oedd yn helpu i sicrhau y gellid rhoi cyfrif amdanynt mewn argyfwng. Gwnaethom argymell fod staff hefyd yn cael eu cofnodi ar y cofrestrau hyn. Roedd staff yn cynllunio cyfleoedd i'r plant gael mynediad i'r ardal awyr agored. Roedd hyn yn helpu'r plant i fod yn egnïol a chael awyr iach ar wahanol adegau trwy gydol y sesiynau.

Mae staff yn cadw plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo ffordd iach o fyw trwy'r bwyd a gynigir a chynllunio cyfleoedd i'r plant fod yn egnïol .

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws felly ni chafodd y maes allweddol hwn ei arolygu ar yr achlysur hwn.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws felly ni chafodd y maes allweddol hwn ei arolygu ar yr achlysur hwn.

## 3.Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, ni wnaethom arolygu'r thema hon yn ei chyfanrwydd a gwnaethom ganolbwyntio ar; pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd a pha mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod drysau allanol wedi'u cloi.

Sicrhaodd yr arweinwyr a'r staff fod yr amgylchedd yn ddiogel. Roedd gweithdrefnau ar waith i helpu i sicrhau bod yr holl ymwelwyr wedi'u hawdurdodi a bod plant yn cael eu hatal rhag gadael yr adeilad heb oruchwyliaeth. Roedd yr holl ddrysau allanol wedi'u cloi ac yn cael eu rheoli naill ai gan fysellbad neu bad wedi’i godio. Gofynnwyd i ymwelwyr arwyddo i mewn a dangos eu manylion adnabod wrth gyrraedd.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel.

### 3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn darparu ardaloedd addas i'r plant.

Roedd yr amgylchedd yn eang ac oherwydd bod dwy ystafell ar gael roedd hyn yn caniatáu lle i'r plant chwarae, dysgu a symud o gwmpas y tu mewn a'r tu allan. Roedd yr ystafell a ddefnyddiwyd gan y plant iau a Dechrau'n Deg yn olau, ac yn groesawgar. Roedd yr ardal awyr agored, y gellid mynd ati'n uniongyrchol o'r ystafell, yn ardal gyffrous ac atyniadol i'r plant. Roedd arwyneb chwarae meddal, ardal gysgodol a ramp, ble'r oedd y plant yn mwynhau gwthio a mynd ar gefn eu teganau i fyny ac i lawr.

Roedd yr ystafell a ddefnyddiwyd gan y plant hŷn a'r rhai a oedd yn mynychu fel rhan o'r Hawl Bore Oes yn ddigon mawr ac roedd plant yn gallu mynd at gyfleusterau gan gynnwys toiledau ac ardal awyr agored. Roedd hwn yn lle addas ond nid oedd ganddo awyrgylch mor atyniadol â'r ystafell arall, er na welsom blant yn mynychu fel rhan o'r clwb ar ôl ysgol. Roedd yr ardal awyr agored yn lle cyffrous i'r plant. Roedd yn arwyneb â glaswellt gyda chyfarpar megis teiars, y gellid eu defnyddio ar gyfer dringo a chydbwyso arnynt ac ardal a oedd yn cael ei chysgodi gan y coed.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn eang ac yn darparu mannau dan do ac awyr agored i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws felly ni chafodd y maes allweddol hwn ei arolygu ar yr achlysur hwn.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Crynodeb**

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, ni wnaethom arolygu'r thema hon er ein bod wedi gwneud argymhelliad ynglŷn â sicrhau eu bod yn cofnodi pob digwyddiad ac yn rhoi gwybod i ni amdanynt.

**Ein canfyddiadau**

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws felly ni chafodd y maes allweddol hwn ei arolygu ar yr achlysur hwn.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws felly ni chafodd y maes allweddol hwn ei arolygu ar yr achlysur hwn.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, y staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws felly ni wnaethom ystyried y thema hon yn llawn.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Roedd hwn yn arolygiad â ffocws felly ni chafodd y maes allweddol hwn ei arolygu ar yr achlysur hwn.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac sy’n cael eu hargymell yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhellion canlynol:

- Cofnodi a rhoi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiadau;
- sicrhau bod yr holl staff sy'n trin bwyd yn gwisgo menig neu'n defnyddio offer i weini;
- gwneud rhai o'r ardaloedd yn yr ystafell a ddefnyddir gan blant Hawl Bore Oes yn fwy atyniadol a sicrhau bod digon o adnoddau i'w hysbrydoli;
- sicrhau bod staff yn cael eu cofnodi ar y gofrestr;
- ail-drefnu amser byrbryd ar gyfer plant Hawl Bore Oes, fel bod ganddynt egwyl ddigonol rhwng byrbryd ac amser cinio.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad â ffocws dirybudd oedd hwn a gynhaliwyd ar ôl derbyn pryder yn ymwneud â diogelwch plant. Ni chawsom unrhyw achos i bryderu yn ystod ein hymweliad. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 21 Mai 2018 o 10:00am i 11:55pm.

Gwnaethom:

- archwilio sampl o gofrestrau'r plant;
- arsylwi ar arfer i gasglu tystiolaeth o ymgysylltiad plant, a'r gofal a ddarperir gan staff sy'n darparu gofal ar gyfer y plant Dechrau'n Deg a Hawl Bore Oes;
- siarad â'r plant, yr unigolyn cyfrifol, y person â gofal a rhai staff;
- trafod y pryder a gafodd ei leisio.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn cyfrifol | Sarah Oliver |
| Person â gofal | Nicola Hunt |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 50 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 11 oed |
| Oriau agor | 7:45am – 5:30pm |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers ailgofrestru fel cwmni cyfyngedig. |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 21 Mai 2018 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Nac ydy |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |